**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Asbestos**

**Dyddiad: Dydd Mawrth 20 Hydref 2015**
**Amser: 17.45 - 19:35**

**<u>Y rhai a oedd yn bresennol</u>**
Nick Ramsay AC, Cadeirydd (NR)
Cenric Clement-Evans, Ysgrifennydd NewLaw Solicitors (CCE)
Jodie Hubbard, Cofnodwr NewLaw Solicitors (JH)
Kim Barrett, Irwin Mitchell Solicitors (KB)
Louise Lidbury, RCN Cymru (LL)
Julian Cason, Slater and Gordon Solicitors (JCa)
Joanne Barnes-Mannings, Asbestos Awareness and Support Cymru (JBM)
Simon Ellis, Hugh James Solicitors (SE)
Jeffrey Parsons, JMP Solicitors (JP)
Philip Gower, Simpson Millar Solicitors (PG)
Nick Blundell, Undeb Adeiladu, Crefftau Perthynol a Thechnegwyr (NB)
Rex Phillips, Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (RP)
Julie Cooke, TUC Cymru (JCo)
Cerith Griffiths, Undeb y Brigadau Tân (CG)
Jon Antoniazzi, Gofal Canser Tenovus (JA)
Mike Payne, GMB (MP)
Lee Campbell, Ymchwil Canser Cymru (LC)

**1. Agenda**

a. Ymddiheuriadau
b. Siarter Mesothelioma Cymru
c. Galwad y Grŵp Seneddol Hollbleidiol am Gyfraith ar Ddileu Asbestos
d. Asbestos mewn ysgolion yng Nghymru
e. Cefnogi pobl â chlefyd asbestos yng Nghymru
f. Unrhyw fater arall
g. Y cyfarfod nesaf

**2. Ymddiheuriadau**

Mick Antoniw AC
Bethan Jenkins AC
Aled Roberts AC
Simon Thomas AC
Dawn Bowden, Unsain
David Evans, Undeb Cenedlaethol yr Athrawon
Eamonn McDonough, Thompsons Solicitors
Yvonne Johns, Voice
Joseph Carter, Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint
Dr Richard Attanoos, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Naomi Horne, Mesothelioma UK
Jessica Blair, y Sefydliad Materion Cymreig

## 3. Cyflwyniadau

Dechreuodd y cyfarfod heb Nick Ramsay AC yn gadeirydd gan ei fod yn dal yn y cyfarfod llawn.

Cyflwynodd pob un a oedd yn bresennol ei hun / ei gefndir.
Nododd CCE fod cyfle i bawb gyfrannu ynglŷn â'r materion sy'n ymwneud ag asbestos yng Nghymru gan gynnwys codi materion gyda golwg ar etholiad y Cynulliad Cenedlaethol yn 2016.

Nododd JBM fod ganddi gopi o Siarter Mesothelioma Cymru nad oedd ar gael yn y Senedd yn y derbyniad ar gyfer Diwrnod Gweithredu Mesothelioma ar 1 Gorffennaf 2015 a chytunwyd y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp.

## 4. Trafodaeth agored

Anogwyd y grŵp i godi materion oedd yn ymwneud ag asbestos yn eu barn nhw.

Cyfeiriodd JP at y ffaith bod Llysoedd y Crwneriaid yn cael eu huno a chododd bryderon ynghylch sut y mae Llysoedd y Crwneriaid yn ymdrin â chwestau sy'n ymwneud â chlefydau asbestos. Awgrymodd y dylid gwahodd cynrychiolydd i annerch y grŵp i drafod y ffordd y mae crwneriaid yn cwblhau achosion a thriniaeth teuluoedd mewn cwest. Awgrymodd CCE y byddai agwedd unffurf gan gynnwys arweiniad yn ddefnyddiol. Mae'r Crwneriaid yn ymdrin ag achosion mewn gwahanol ffyrdd o un llys i'r llall.
Awgrymodd JP, drwy gyfeirio at achos penodol, fod y prosesau yn ansensitif tuag at deuluoedd gan gynnwys pan mae'r heddlu yn rhan o'r achos. Cyfeiriodd hefyd at achos lle na chafodd y post mortem ei ryddhau tan ddiwrnod y cwest, a'r anawsterau o ganlyniad o ran cynghori teuluoedd ac yn wir eu paratoi ar gyfer rheithfarn a allai fod yn anffafriol.
Crybwyllodd CCE fod agenda'r cyfarfod yn cynnwys y Bil Dileu a baratowyd gan y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Iechyd Galwedigaethol. Cyfeiriwyd at waith Hugh Robertson, Uwch Swyddog Polisi gyda'r TUC.

Tynnodd NB sylw at faterion yn y sector adeiladu a chroesawodd y cynnig i gael gwared ar asbestos. Ar hyn o bryd mae'r gweithlu'n aml yn cael gwybod nad oes asbestos yn bresennol a'i bod yn ddiogel iddynt weithio pan fo'r gwrthwyneb yn wir, yn sgil methiant yn y gadwyn gyfathrebu, gan arwain at bosibilrwydd o amlygu'r gweithwyr i asbestos.
Dywedodd JBM yr arferai fod yn asiant gwerthu tai, a theimlai ei bod yn bwysig bod gan syrfewyr ddyletswydd gofal i dynnu sylw at asbestos yn eu hadroddiadau, yn yr un modd ag y maent yn tynnu sylw at ludw coch neu leithder. Roedd yn cydnabod yr effaith ar ddarpar brynwyr.
Gofynnodd NB sut y byddai hynny'n gweithio yn achos tai cymdeithasol.
Cododd JCa bryderon ynghylch carfannau eilaidd o bobl yn cael eu hanafu os gofynnir iddynt archwilio'r tai i gyd, ynghyd â'r potensial i gael gwared ar asbestos yn anghyfreithlon.
Tynnodd NB sylw at bryderon ynghylch cynlluniau uno yn y gwasanaeth iechyd, lle y ceir llawer o hen adeiladau sy'n cynnwys asbestos a lle mae rheoliadau'n cael eu torri. Yn aml, roedd gweithwyr wedi cael gwybod ei bod yn ddiogel iddynt weithio, er

bod adroddiad asbestos ar gael a oedd yn nodi i'r gwrthwyneb ond na ddarparwyd yr adroddiad hwnnw. Rhoddodd enghraifft i ddangos hyn, pan fu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i ymweld â safle yng Nghaerfyrddin gan siarad â rheolwr a gofyn pam nad oedd wedi rhoi gwybod i'r gweithlu ar ôl cael adroddiad asbestos a chael cyfarwyddiadau penodol i roi'r adroddiad i'r aelodau'r staff I GYD. Gofynnodd y swyddogion pam nad oedd wedi gwneud hyn, a'i ateb oedd "Doeddwn i ddim yn meddwl ei bod yn angenrheidiol".
Roedd NB yn pryderu ei bod yn fater o feiusrwydd ac nad oedd y beiusrwydd yn trosglwyddo gyda TUPE. Y canlyniad oedd nad oedd unrhyw gyfrifoldeb clir wrth i fyrddau iechyd gael eu huno.

Amlinellodd CG na fyddai'r mater fel arfer yn cael ei drafod tan hanner ffordd drwy'r tân, yn achos y gwasanaeth tân. Dim ond yn hwyr yn y broses y daw'n hysbys bod asbestos yn yr adeilad. Ar ôl i hynny ddigwydd, rhaid i ddiffoddwyr tân fynd trwy broses ddadheintio, gan gynnwys cyflwyno'u cyfarpar i gyd i gael ei anfon i ffwrdd. Er hynny, oherwydd cyfyngiadau cyllidebol bydd diffoddwyr tân yn aml yn cael gwybod na chawsant eu hamlygu yn hytrach na chymryd agwedd ragofalus. Mewn byd delfrydol, byddai'n ddefnyddiol iawn pe byddai'r wybodaeth ar gael yn electronig ar y ffordd.

Dywedodd MP ei fod yn ymdrin â staff cymorth a'r wybodaeth y gellir ei rhoi. Cyfeiriodd at luniadau neu gynlluniau o adeiladau cyhoeddus sydd wedi bodoli ers amser hir, gyda llwybrau dianc / hydrantau ac ati wedi'u nodi arnynt. Dywedodd y gellid eu defnyddio i helpu i nodi lle yn union y mae'r asbestos yn yr adeilad. Ni fyddai'n costio llawer, ond byddai'n fuddsoddiad i roi hyfforddiant i'r staff rheng flaen yn hyn o beth.

Dywedodd JA ei fod yn gweithio i Ofal Canser Tenovus ac yn teimlo bod angen edrych yn fwy gofalus ar anghenion ariannol. Mae llywodraeth leol yn storfa o wybodaeth y mae angen ei rhannu a'i defnyddio. Roedd angen mwy o drafodaeth ynglŷn â dyletswyddau syrfewyr, rhag i bobl gael eu hannog i beidio â phrynu tai. Hefyd, sut y byddai dyletswydd o'r fath yn cael ei monitro? Roedd angen trafod mwy ar y pethau ymarferol.

Rhybuddiodd JBM yn erbyn rhoi pobl mewn panig. Cyfeiriodd at waith ei gŵr yn y GIG ac amlinellodd sut y mae hyn yn gweithio. Rhoddodd bwyslais ar hyfforddiant a sut mae pobl yn defnyddio'r cofrestrau asbestos presennol. Roedd hi'n derbyn bod hyn yn amrywio o le i le. Roedd hi hefyd yn derbyn bod y sector preifat yn aml yn mynd o gwmpas pethau yn wahanol, gan nad oedd hyfforddiant ar gael bob amser a'r gyfraith yn cael ei hanwybyddu.
Soniodd NB am y diwydiant adeiladu, gan ddweud y byddai'r fforman yn aml, os oedd yn cael cais i dŷ gael ei archwilio am asbestos cyn dechrau ar y gwaith, yn rhoi'r gwaith i ddyn arall nad oedd yn gofyn am brawf.
Dywedodd JBM ei bod yn syfrdanol fod yna gwmnïau bach a chanolig a masnachwyr nad oeddent yn cymryd asbestos o ddifrif. Roedd angen inni fynd yn ôl at yr hanfodion eto a chodi ymwybyddiaeth. Roedd gan Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint ymgyrch enfawr, "Take 5 and stay alive" - a oedd yn effeithiol.
Amlinellodd NB fod yn rhaid i'r cleient gymryd mwy o gyfrifoldeb yn y GIG, ac mewn ysgolion a busnesau cyhoeddus, a phenodi unigolyn sy'n gyfrifol am asbestos *(deiliad dyletswydd)* yn y gweithle. Dywedodd y dylai cleientiaid mewn tai

cymdeithasol ddweud wrth eu contractwyr lle mae'r asbestos er mwyn iddynt ddweud wrth eu contractwyr eu hunain beth i'w wneud a chyfeiriodd at ddyletswyddau o dan y Rheoliadau Rheoli Asbestos.
Awgrymodd CCE y gall fod mwy o ddyletswyddau ar gleientiaid bellach yn sgil Rheoliadau Dylunio a Rheoli Adeiladu 2015
Teimlai NB fod gwefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch braidd yn gamarweiniol gan ei bod i'w gweld fel pe bai'n awgrymu mai'r unigolyn ac nid y cleient a oedd â'r cyfrifoldeb.
Awgrymodd CCE mai ei nod ar gyfer y grŵp oedd iddo fod yn debyg i'r Grŵp Hollbleidiol Seneddol yn San Steffan, er bod hynny'n uchelgeisiol. Daeth yn amlwg o'r drafodaeth bod diffyg ymwybyddiaeth eglur yn ymwneud ag asbestos ac y byddem am ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i ddangos hyn ac ymgysylltu ynghylch sut y gallai helpu i godi ymwybyddiaeth. Mae'n fater sy'n wirioneddol bwysig i iechyd y cyhoedd.
Cyfeiriodd NB at y gostyngiad yng nghyllideb yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac arweiniodd hyn at drafodaeth ynglŷn â'r hyn y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud.

Nododd JA y byddai'n awyddus i bwyso am fwy o ymchwil ym maes asbestos gan fod hyn yn rhywbeth y gallai Gofal Canser Tenovus ariannu ymchwil iddo. Roedd yn teimlo y dylai fod yn uwch ar restr blaenoriaethau'r elusennau o ran cyfathrebu. Y broblem fyddai dod o hyd i ymchwilydd a all sicrhau cyllid gan elusen.

Nododd LL ei bod yn gweithio i Brifysgol Caerdydd ac y gallai felly helpu i roi'r grŵp mewn cysylltiad ag ymchwilwyr. Dylid hefyd ystyried NISH.

Atgoffodd JBM fod Asbestos Awareness and Support Cymru yn cefnogi pob math o glefydau asbestos ac nid dim ond y canserau.
Dywedodd JA y byddai'n syndod pe na bai Gofal Canser Tenovus yn cynnig cefnogaeth a bod angen nodi ymchwilwyr academaidd. Byddai hyn yn rhan o'r ymchwil gymdeithasol ac ataliol y mae Gofal Canser Tenovus yn dyfarnu cyllid iddi.
Nododd LC y byddai'n ddefnyddiol cael gweithwyr meddygol proffesiynol yn y Grŵp Trawsbleidiol. Nododd CCE ei fod wedi anfon gwahoddiadau ac wedi cael un ymddiheuriad, ond cytunodd ei bod yn hanfodol iddynt gymryd rhan.

**5. Siarter Mesothelioma (Cymru)**

Esboniodd CCE fod y Grŵp Trawsbleidiol wedi'i sefydlu o ganlyniad i siarad ag NR yn y derbyniad ar gyfer Diwrnod Gweithredu Mesothelioma a drefnwyd gan Mesothelioma UK / Asbestos Awareness and Support Cymru yn y Senedd. Roedd Mick Antoniw AC wedi cytuno ar y diwrnod i fod yn aelod. Yn dilyn hynny roedd Bethan Jenkins AC ac Aled Roberts AC wedi cytuno i fod yn aelodau o'r grŵp. Roedd y Siarter Mesothelioma ar gyfer Cymru i fod i gael ei lansio ar 1 Gorffennaf ond nid ond wedi'i chymeradwyo.
Yna cyflwynodd JBM y Siarter a darparodd gopi gan ddweud ei bod yn falch o weld y cyfeiriad at fyw yn dda gyda chanser a'r trydydd sector.

Roedd Naomi Horne, nyrs arbenigol, wedi arwain y gwaith ar gyfer Siarter Mesothelioma yng Nghymru.

Yna eglurodd JBM fod pob agwedd ar y Siarter hon wedi'i nodi yn y fanyleb gwasanaeth ddrafft ar gyfer Mesothelioma a ystyriwyd gan y Grŵp Cynghori ar Ganser (Ysgyfaint).

Nod y Siarter oedd gwneud bywyd yn well i gleifion a theuluoedd. Mae Siarter Cymru yn canolbwyntio ar y gofal ar gyfer cleifion a theuluoedd. Mynegodd JBM ba mor bwysig yw cydnabod bod y teulu'n cofio sut mae rhywun yn marw a pha mor bwysig oedd cefnogaeth y trydydd sector, heb unrhyw gost i'r Llywodraeth. Mewn geiriau eraill, mae'n hanfodol cael y gefnogaeth honno ar ddiwedd oes y claf fel ei fod yn marw'n dda a bod y teulu'n cael eu cefnogi'n llawn.

Gofynnodd LC a oedd Naomi Horne yn gysylltiedig â Chynghrair Canser Cymru. Roedd yn bryderus ynghylch dyblygu gwaith a phrosesau cyfochrog.

Cyfeiriodd LL at y Gynhadledd Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ddiweddar lle y trafodwyd porth canolog i'r trydydd sector storio a lanlwytho'r math o wybodaeth a ragwelir gan y Siarter. Mynegodd JA y byddai'n cefnogi porth o'r fath a gofynnodd am ragor o fanylion ynglŷn â sut y byddai'n gweithio.
Atebodd LL fod gwaith ar y porth ar y gweill a bod cronfa ddata i gael ei sefydlu'n ganolog. Byddai LL yn darparu manylion am y sawl sy'n rhoi'r sgwrs.
(Cytunwyd bod y rhai sy'n mynychu yn fodlon rhannu eu cyfeiriadau e-bost.)
Dywedodd LL fod nyrsys wedi bod yn rhoi pwysau i gael porth o'r fath ers peth amser gan fod cymaint o gwmnïau trydydd sector a'u bod yn teimlo y byddai'n beth da i'r holl wybodaeth gael ei chadw'n ganolog.

## 6. Bil Dileu

Nododd MP fod yna lawer o bethau ar yr agenda i'w gweld yn rhedeg yn gyfochrog â'i gilydd. Roedd angen inni weithredu yma neu fel arall byddwn yn dal yn siarad am hyn ymhen 5 mlynedd arall. Beth am edrych ar gael gwared ar asbestos o ysgolion a dileu'r risg? Beth am edrych ar faterion o bwys? Mae pawb yn sôn am y "gost" drwy'r amser ond mae'n rhaid i rywun ymdrin â'r mater. Mae angen inni fod yn rhoi sylw i'r materion mawr hyn.
Cytunodd JCo. Roedd hi'n cefnogi papur y Grŵp Hollbleidiol Seneddol. Cyfeiriodd at y ffaith fod gan Unite gofrestr o 15,000 o bobl a oedd wedi'u hamlygu i asbestos. Cyfeiriodd at y ffaith fod gwledydd eraill yn canolbwyntio'n llwyr ar ddileu a holodd i ba raddau yr oedd gwaith ymchwil wedi'i gynnal gyda'r gwledydd hynny.
Nododd MP y byddai Mick Antoniw AC yn gallu helpu gan y byddai'n gallu annog yr undebau llafur i gyd i gymryd rhan. Ychwanegodd ei fod yn credu bod yr amser i drafod wedi mynd heibio a bod angen gweithredu. Amlinellodd fod 3 maes i ganolbwyntio arnynt: cael gwared ar y risg (roedd dileu yn rhan o hyn) ymchwil a chodi ymwybyddiaeth. Galwodd am grŵp trosfwaol i ddwyn pawb sydd â diddordeb ynghyd ac i ddechrau gweithio gyda'i gilydd.
Nododd LC fod angen meincnod cenedlaethol, i gysylltu awdurdodau iechyd tebyg â'i gilydd.

## 7. Materion ffurfiol y Grŵp

Cyrhaeddodd Nick Ramsay AC am 19.00 a chyfeiriodd CCE at grynodeb MP o'r sefyllfa. Dywedwyd wrth NR y cafwyd trafodaeth am y Siarter Mesothelioma, codi

ymwybyddiaeth ynglŷn ag asbestos, profiadau llysoedd crwneriaid a syniadau ynglŷn ag elusennau canser.

Diolchodd NR i bawb am ddod a dywedodd mai'r cyfarfod agoriadol oedd hwn, gyda llechen lân i wneud yr hyn yr oedd y Grŵp Trawsbleidiol am ei wneud.
Cytunwyd yn ffurfiol mai NR fyddai'r cadeirydd.
Dywedodd NR fod Bethan Jenkins (Plaid Cymru), Mick Antoniw (Llafur), ac Aled Roberts (Democratiaid Rhyddfrydol) hefyd yn aelodau o'r grŵp gydag CCE yn ysgrifennydd. Byddai'n rhaid cofrestru'r cyfarfod yn ffurfiol a ffeilio cofnodion o fewn 4 wythnos. Dylid cynnal cyfarfod arall cyn yr etholiad ym mis Mai 2016.

## 8. Asbestos mewn ysgolion

Hysbysodd MP fod y GMB yn llwyr o blaid yr ymgyrch i gael gwared ar asbestos o ysgolion yng Nghymru a'i fod yn cefnogi'r ymgyrch yn llawn.

Dywedodd RP mai mater i Lywodraeth Cymru yw cymryd cyfrifoldeb am asbestos mewn ysgolion. Cyfeiriodd at y ddadl ynglŷn â chyfrifoldeb pwy ydyw - Llywodraeth Cymru ynteu Lywodraeth y DU. Roedd yr undeb llafur yn awyddus i gael gwared ar yr asbestos mewn ysgolion a lleihau'r risg i bobl. Ei farn ef oedd y dylai Llywodraeth Cymru gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb. Mae Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau wedi sefydlu cofrestr i aelodau ddweud a oeddent wedi cael eu heffeithio gan asbestos. Nid oedd rhai aelodau am wneud hyn rhag ofn i hynny effeithio ar eu gallu i gael morgais.
Dylai fod rhaid i bob ysgol osod sticeri i nodi bod asbestos yn bresennol. Nid dyma'r arfer ym mhob ysgol. Dylid gwneud hyn yn fater gwleidyddol yn y cyfnod yn arwain at yr etholiad, a dylid gofyn i'r pleidiau gwleidyddol roi sylwadau ar hyn. Mae ysgolion yn aml yn dweud bod popeth yn iawn ar yr amod bod yr asbestos yn cael llonydd, ond nid yw hynny'n wir. Ni ellir ei adael.
Cytunodd CG a dywedodd ei fod yn aml yn clywed yr ymadrodd "gadael llonydd i'r asbestos" ond o'i safbwynt ef os oes tân, mae'n amhosibl gadael llonydd iddo.
Hysbysodd CCE y grŵp ei fod wedi rhoi tystiolaeth ynghylch y Ddeiseb Hawl i Wybod i'r Pwyllgor Deisebau yn gynharach y diwrnod hwnnw.
Cytunodd ag RP ac CG, gan ddweud mai mantra'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yr oedd llywodraethau'n gwrando arno oedd bod asbestos yn ddiogel os oedd yn cael llonydd. Y broblem yn rhannol oedd na fyddai ysgolion yn gwybod a oedd asbestos yn cael llonydd ai peidio os nad oeddent yn gwybod ei fod yno. Roedd y mater yn fwy cymhleth p'un bynnag oherwydd bod ffibrau'n cael eu rhyddhau e.e. trwy glepian drysau a ffenestri.
Cyfeiriodd at yr arolwg a gynhaliodd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon ymhlith ei haelodau. Er bod yr arolwg yn fach, roedd yn dangos diffyg ymwybyddiaeth.
Cyfeiriodd CCE at ei alwad am Grŵp Llywio yng Nghymru ar Asbestos, tebyg i'r grwp sy'n cynghori'r Adran Addysg yn Lloegr. Cyfeiriodd at ei sgwrs gyda Chadeirydd Grŵp Llywio'r Adran Addysg, Mike Green, a'r sgwrs e-bost ddilynol a ddarparwyd i'r Pwyllgor Deisebau. Roedd y sgwrs wedi dangos yn glir bod gwaith Grŵp Llywio'r Adran Addysg yn ymwneud ag ysgolion yn Lloegr yn unig. Roedd yntau wedi nodi'n glir nad yw ysgolion yng Nghymru yn cael eu cynrychioli ac wedi awgrymu y dylai grŵp llywio yng Nghymru gynnwys cynrychiolwyr o grwpiau gan gynnwys Undebau

Llafur, Awdurdodau Lleol, Llywodraethwyr Cymru, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac ymgynghorwyr asbestos.
Mae'n parhau i fod yn wir nad oedd neb yn cymryd cyfrifoldeb dros ysgolion yng Nghymru. Roedd Llywodraeth Cymru yn dweud mai San Steffan oedd yn gyfrifol oherwydd ei fod yn fater iechyd a diogelwch a heb ei ddatganoli, tra bod Llywodraeth y DU yn dweud mai mater i Lywodraeth Cymru oedd polisi ar asbestos mewn ysgolion.
Yn y bôn, os oedd Llywodraeth Cymru yn gywir, dylai fod yn sicrhau bod Llywodraeth y DU yn ymdrin ag asbestos mewn ysgolion yng Nghymru yn ogystal ag yn Lloegr.

**Unrhyw fater arall**

Siaradodd JBM am waith Asbestos Awareness and Support Cymru a'r gefnogaeth a gynigir ledled Cymru o ran salwch a phryderon sy'n gysylltiedig ag asbestos. Roedd hyn yn cynnwys cyfeirio pobl i'r man cywir. Gofynnodd am gefnogaeth i godi ymwybyddiaeth o'u gwaith fel bod pobl yn gwybod am eu bodolaeth ac yn gallu gofyn am eu cymorth.

**Y cyfarfod nesaf**
Awgrymodd NR y dylid cynnal cyfarfod ym mis Ionawr, h.y. cyn yr etholiad.
Daeth y cyfarfod i ben am 19.35.